# Y Ffrynt Cartref

**Ymyrrodd y llywodraeth ym mywydau pawb ym Mhrydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyflwynwyd y cysyniad o'r 'Ffrynt Cartref' er mwyn paratoi economi'r wlad a'r cyhoedd yn gyffredinol tuag at ryfel.**

Un o brif nodau'r llywodraeth oedd atal prinder bwyd. Ar ddechrau'r rhyfel, fe grëwyd prinder gan i'r bobl fynd ati'n wyllt i brynu bwyd mewn panig. Roedd 1916 yn flwyddyn galed i deuluoedd, gyda'r newyddion o Frwydr y Somme a bwyd yn brin. Ym mis Ebrill, dim ond chwe wythnos o wenith oedd gan Brydain ar ôl ac roedd bara yn rhan bwysig o ddiet y rhan fwyaf o bobl. Yn sydyn, roedd y rhan fwyaf o deuluoedd yn ymwybodol iawn o'r rhyfel. Cododd prisiau bwyd ac erbyn mis Hydref 1916, roedd glo yn brin. Roedd glo bellach yn cael ei ddogni yn ôl nifer yr ystafelloedd oedd gan bob teulu.

Daeth ciwiau bwyd yn olygfa gyffredin mewn dinasoedd ledled Ewrop. Cyflwynodd llywodraeth yr Almaen ddulliau o reoli'r cyflenwad bwyd ond er gwaethaf hyn, roedd mwy a mwy o Almaenwyr heb ddigon o fwyd o 1916 ymlaen. Roedd gan y chwyldro yn Rwsia (1917) wedi dechrau o ganlyniad i derfysgoedd bwyd yn y trefi. Nid oedd y syniad o ddogni bwyd yn boblogaidd gyda'r cyhoedd ym Mhrydain. Er hynny, yn 1917, dechreuodd longau tanfor yr Almaen dargedu llongau masnach. Cafodd hyn effaith mawr iawn ar y cyflenwad bwyd ym Mhrydain. Cyflwynodd Prydain ddogni yn Llundain ar ddechrau 1918 a chafodd ei ymestyn yn genedlaethol erbyn yr haf.

Roedd sefydliad tebyg i'r ffrynt cartref yn Ffrainc yn cael ei adnabod fel Union Sacré (undeb cysegredig), sef cynghrair rhwng y llywodraeth, diwydiant a'r bobl.
Galwyd y fersiwn Almaenig yn Rhaglen Hindenburg, ar ôl y Cadfridog Paul von Hindenburg (1847 – 1934).

